Genesis

Oed: 5 – 7

Duw'n creu'r byd

Stori o'r Beibl
Genesis 1:14–19

Neges y stori
Gwnaeth Duw yr haul i ni

Gweithgaredd

Gwawr gwych

Creu gwawr crog i'n hatgoffa i werthfawrogi harddwch un o greadigaethau Duw.

- **Bydd angen**

Peli polystyren 4cm, paent poster melyn, papur ffiltro coffi, dyfrlliwiau, cwpanau bach o ddŵr, glanhawyr pibell oren, glud gwyn, brwsys paent, siswrn, tyweli papur, darnau o linyn 30cm o hyd.

- **Paratoi**

Peintiwch y peli polystyren yn felyn o leiaf ddiwrnod ymlaen llaw.

- **Awgrym cynnil**

Gwnewch llai o lanast wrth beintio pob haul trwy bwyso ffon grefft i mewn i bob pêl er mwyn ei dal yn haws. Pwyswch ochr arall y ffon mewn blwch wyau pen-i-waered i sychu. Cyn y sesiwn, tynnwch y ffon allan gan adael y twll ar gefn yr haul.

- **Cam-wrth-gam**

1. Gosodwch y papur hidlo yn fflat ar dywel papur. Gan ddechrau yn y canol a mynd mewn cylchoedd, peintiwch y papur hidlo'n goch, melyn ac oren.
2. Peintiwch haen denau o'r glud ar un ochr y papur hidlo, yna ei osod o'r neilltu i sychu.
3. Torrwch bedwar darn 2.5cm a phum darn 5cm o'r glanhawr pibell. Plygwch un o'r darnau hiraf yn siâp U a gwthio'r ddau ben yn y bêl polystyren i wneud dolen. Gwthiwch y gwifrau eraill yn y bêl i edrych fel pelydrau, gan osod rhai hir a byr am-yn-ail.
4. Tolltwch ychydig o'r glud i ganol y papur hidlo ac yna gosod yr haul arno.
5. Clymwch ddarn o linyn trwy'r ddolen er mwyn hongian eich haul.



Neges y wers

Wedi i'r plant orffen, darllenwch y stori am sut y creodd Duw'r haul, lleuad a'r sêr. Wedyn gofynnwch:

- Pam wnaeth Duw'r haul i ni?
- Heb yr haul, be' fyddai'n digwydd?

Esboniwch fod Duw, pan greodd y byd, yn gwybod y byddai angen yr haul arnon ni er mwyn byw. Mae'r haul yn rhoi gwres a goleuni inni ac yn helpu anifeiliaid, planhigion a phobl i dyfu a bod yn iach. Gwnaeth Duw yr haul i ni oherwydd ei fod yn rhoi popeth i ni er mwyn i ni gael byw. Arweiniwch y plant mewn gweddi yn diolch i Dduw am ddarparu be sydd ei angen arnon ni, yn enwedig yr haul.

Duw'n creu'r byd

Oed: 7 – 11

Stori o'r Beibl
Genesis 1:20–31; 2:15

Neges y stori
Mae Duw am i ni ofalu am ei greadigaeth

Gweithgaredd

Gofalwyr y cread

Gwneud bwydwr adar

- **Bydd angen**

Cartonau llefrith neu sudd ffrwythau un litr, paent chwistrell gwyn, styffylwr, papur sidan lliw, cerdyn lliw, glud, brwsys paent, siswrn, edafedd gwau, dalennau o blastig clir cefn-gludiog, ffyn crefft, pinnau ffelt, papur newydd, ffedogau.

- **Paratoi**

Caewch ben pob carton gyda styffylau a'u peintio gyda phaent chwistrell gwyn. Pan fydd y cartonau wedi sychu, torrwch hanner cylch siâp bwa ar y ddwy ochr, dim is na 2.5cm o'r gwaelod. Torrwch un ddalen o'r plastig clir cefn-gludiog i ffitio o amgylch pob carton ond peidiwch â'i osod ar y carton eto.

- **Awgrym cynnil**

I gynyddu diddordeb y plant yn y cywaith hwn, darganfyddwch pa adar sy'n byw yn eich ardal. Dewch â lluniau rhai i ddangos, os yn bosib', a rhannwch rhai ffeithiau diddorol. Ehangwch ar y neges Feiblaidd yn ymarferol trwy roi ychydig o fwyd adar i bob plentyn (fel hadau, bara neu rawn sych), mewn bag plastig ail-seliadwy, iddyn nhw gael mynd adre gyda nhw.

- **Cam-wrth-gam**

1. Cyn dechrau, rhowch ffedog yr un i'r plant wisgo. Yna lliwiwch ddau o'r ffyn crefft gyda phinnau ffelt. Gludwch un ffon at y llall i wneud croes.
2. Torrwch ddau betryal 5cm wrth 10cm o'r cerdyn lliw a siapiwch un ochr byr ar bob un i edrych fel ffenest eglwys. Torrwch un cylch 5cm o'r un papur.
3. Taenwch lud ar un o'r siapiau. Tra bo'r glud yn para'n wlyb, torrwch ddarnau bychain o'r papur sidan lliw a'u taenu dros y glud. Ailadroddwch gyda'r ddau siâp arall, wedyn trimio'r papur sidan o'r ochrau.
4. Gludwch y ffenestri hirion ar ddwy ochr y cartonau sydd heb eu torri. Gludwch y cylch uwchben un o'r tyllau ar y drydedd ochr i greu'r tu blaen.
5. Gorchuddiwch y bwydydd adar cyfan gyda phlastig clir cefn-gludiog i'w gadw'n wrth-ddŵr.
6. Prociwch dyllau ym mhen y carton. Torrwch ddarn o'r edafedd gwau tua hyd eich blaen fraich, o'ch penelin at eich bysedd a'i bwytho trwy dyllau i'w grogi. Gludwch y groes ar y blaen, uwchben y 'ffenest' gylch er mwyn cwblhau eich bwydydd adar eglwysig.



Neges y wers

Darllenwch Genesis 1:20–31 a 2:15. Yna gofynnwch:

- Sut mae bwydydd adar yn help i ni ofalu am greadigaeth Dduw?
- Pam roddodd Duw bobl i ofalu am bopeth byw ar y ddaear?
- Sut ydyn ni wedi gwneud gwaith da? Sut ydyn ni wedi gwneud gwaith gwael?
- Beth allwn ni ei wneud i gywiro ein camgymeriadau a gofalu am bopeth byw, fel y mae Duw am i ni ei wneud?

Esboniwch fod Duw wedi creu gymaint o blanhigion ac anifeiliaid anhygoel yma ar y ddaear. Nid gwaith Adda ac Efa yn unig oedd gofalu amdanyn nhw – mae'r cyfrifoldeb hwnnw wedi ei basio ymlaen atom ni. Mae pob pysgodyn, blodyn ac aderyn yma am reswm. Dewch i ni wneud ein gorau i ofalu amdanyn nhw. Gweddïwch gyda'ch gilydd, gan ddiolch i Dduw am yr holl rywogaethau bendigedig hyn.